1.67.29

# PENNILLION

*A gyfansoddwyd gan* TIMOTHY DAVIES, *Teiliwr, herwydd iddo orfod rhedeg o flaen Tarw Ty-yn-y-cymmer, ger Cwmrhondda, ar Ddydd Iau,* Mai 21, 1863.

I.

Mawr bledo sydd am redeg,
Rhai yn Gymraeg, rhai'n Seis'neg;
Rhai er mwyn sport mewn llawer dyll,
A rhai er ennill chwaneg.

II.

Os rhedeg fydd am arian
Rhyw dwyll dri'n fynych allan,
Nes ysgar cariad o bob tu,
A hyn sy'n nafu'r cyfan.

III.

Ceir withiau yn clustfeinio,
Hen wr a'i seiliau'n siglo;
Rhwng i'engtyd haid'n eu holi hwy
Mewn ffwdan pwy sy'n ffido.

## IV.

'Nol treiddio yn gyfrwysgall,
I'r oll o dde a'i ddeall,
Fe allai'n fradwr tri'n y fan,
Er speilio arian arall.

## V.

Ond ni gawn rasus weithiau,
Heb ddim cilbwt yn ddiau ;
O lawer gallaf enwi un
Ges wel'd fy hun o'i ddechreu.

## VI.

Gerllaw Trebanog cofier,
Fu'n dyn am 'chydyg amser,
Sef rhwng y nawfed ran o ddyn
A tharw Ty-'n-y-cymer.

## VII.

Ni welwyd ras onestach,
Na nemawr mor ddirwgnach,
Nac un erioed trwy siarad llai
Os buodd rhai'n gyflymach.

## VIII.

Y tarw a gynnygiodd
Fod ras—a'r teiliwr eilodd,
Ac fel bu'n oreu medd pob rhai
Y teiliwr a'i hennillodd.

X20519888X W.27.41(P)

IX.

Waith nid cael ras yn unig,
  Foddlonai'r hen walch cyrnig
Tra'n ceisio torri'r oll yn ddellt,
  Mewn natur felldigedig.

X.

Y tarw fynnai'n 'chwaneg
  Ei dir ei hun i rhedeg,
Ac ni chymerai chwaith un nag,
  Nac yn Gymra'g na Seis'neg.

XI.

Y teiliwr oedd am dosso,
  Pa dir, ac ail ymgommio,
Ond tynnu atto'r tarw wnai
  Fel prawf na chai ohirio.

XII.

Tra nad oedd dym yn tycio,
  Bu raid i'r teiliwr hwylio,
Gan gofio'r hen air sy'n y wlad,
  Gwell weithiau traed na dwylo.

XIII.

Ras hynod wyllt fu honno,
  Ni soniwyd gair am ffido,
Y teiliwr heb foreufwyd oedd,
  Pan gadd ar goedd ei dreio.

XIV.

Ychydig a feddyliodd,
  Pan lawr o'r gwelu cododd,
Fod iddo ef mor glau gael ras
  A'r gelyn casaf welodd.

XV.

Ac nid oedd yno ungwr,
  I waeddi gyda'r teiliwr,
Dim ond bygythion yn llawn bar,
  Wnai rwygo'r dda'r fel pabwr.

XVI.

Ond gwnai'r hen darw synnu,
  Pe gwyddai'r oll rwy'n credu,
Fel na chynnygiai ddyn 'n un man,
  Trwy'r nawfed ran ei faeddu.